# Cydlynydd Gwirfoddolwyr y Banc Bwyd

# Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

**DISGRIFIAD SWYDD**

**Atebol i:** Rheolwr y Prosiect ac Ymddiriedolwyr Banc Bwyd Arfon
**Cyfrifol am:** Cydlynu a chefnogi gwirfoddolwyr ym Manc Bwyd Arfon
**Cyflog:** £16,500
**Rhan-amser:** 24 awr yr wythnos
**Lleoliad:** cyfuniad o weithio gartref, gweithio yn y banc bwyd, ac mewn digwyddiadau recriwtio a rhwydweithio rheolaidd
**Hyd y contract:** Swydd blwyddyn i'w hadnewyddu yn amodol ar gyllid pellach

**Cyfrifoldeb cyffredinol y swydd:** Bydd y Cydlynydd Gwirfoddolwyr yn paru gwirfoddolwyr presennol â rolau strategol, yn cadw mewn cysylltiad ag asiantaethau gwirfoddol statudol a recriwtio gwirfoddolwyr cyffredinol a strategol trwy hysbysebu a rhwydweithio. Byddant hefyd yn integreiddio gwirfoddolwyr i'r banc bwyd gan ddefnyddio Assemble a sicrhau bod cymhelliant a sgiliau ein gwirfoddolwyr yn gwella. Byddant yn gwneud yr olaf trwy arfogi staff ac arweinwyr presennol y banc bwyd a thrwy hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr yn barhaus.

**Cyfrifoldebau penodol:**

*Recriwtio*

- Pennu anghenion gwirfoddolwyr yn chwarterol ar y cyd â rheolwr y prosiect
- Sicrhau bod anghenion cyfredol gwirfoddolwyr yn cael eu cyfleu i'r sianeli priodol, yn fewnol ac yn allanol
- Mynychu digwyddiadau rhwydweithio a threfnu sesiynau gwybodaeth i recriwtio gwirfoddolwyr.
- Canfod ac arfogi pobl allweddol fydd yn gweithredu fel pobl gyswllt yn eu cymunedau i recriwtio gwirfoddolwyr.

*Cynefino*

- Adolygu deunyddiau a llwybr cynefino presennol gwirfoddolwyr newydd
- Golygu'r llawlyfr gwirfoddolwyr presennol
- Goruchwylio proses gynefino gwirfoddolwyr newydd

*Rheoli a chadw gwirfoddolwyr*

- Arfogi arweinwyr tîm a shifft i gefnogi gwirfoddolwyr newydd a phresennol yn well.

- Defnyddio Assemble i gofnodi gwybodaeth am wirfoddolwyr, gan gynnwys rotas, cerrig milltir a hyfforddiant a sgiliau perthnasol.
- Cysylltu'n rheolaidd gyda gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn clywed unrhyw newyddion neu ddatblygiadau diweddar yn y banc bwyd
- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw bryderon, canmoliaeth neu awgrymiadau a gynigir gan wirfoddolwyr
- Cysylltu â rheolwr y banc bwyd i gydnabod gwirfoddolwyr am eu gwaith caled a'u cyflawniadau.

*Adrodd ac Arall*

- Cyfarfod yn fisol gyda rheolwr y prosiect i werthuso arferion cyfredol a datrys problemau lle bo angen
- Cydweithio â rheolwr y prosiect i roi adroddiadau chwarterol ar weithgarwch gwirfoddolwyr.
- Cyfarfod yn fisol gyda thîm craidd Banc Bwyd Arfon i adrodd ar gynnydd.
- Rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr sy'n gadael.

**MANYLEB PERSON**

**Profiad:**

- Profiad o reoli gwirfoddolwyr mewn elusen
- Profiad o weithio gyda phobl o sawl cefndir gwahanol
- Profiad o arwain tîm
- Profiad o ddefnyddio cronfa ddata i olrhain cynnydd a gwybodaeth i ddefnyddwyr
- Cyfarwydd ag eglwysi a Christnogion o wahanol enwadau

**Sgiliau Allweddol:**

- Gwrandawr empathetig a gweithredol
- Yn gallu rheoli a monitro datblygiad prosiect
- Yn gallu cyfathrebu'n dda yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Yn hyderus wrth ddefnyddio rhaglenni ebost, meddalwedd prosesu geiriau a chreu taenlenni, a'r rhyngrwyd
- Yn gallu gweithio'n annibynnol heb oruchwyliaeth
- Yn dda am greu cyswllt â phobl dros y ffôn
- Byddai'n ddymunol penodi rhywun sy'n rhugl mewn Cymraeg llafar ond nid oes raid

**Nodweddion personol:**

- Yn cael boddhad wrth osod pobl mewn amgylchedd lle maen nhw'n ffynnu.
- Yn frwd dros fynd i'r afael â thlodi
- Hyblygrwydd mewn amgylchedd gwaith sy'n newid

**Gofynion eraill**

- Gwiriad DBS
- Teithio o bryd i'w gilydd o fewn Arfon

**Rhoddir hyfforddiant**

- Hyfforddiant cynefino
- Hyfforddiant TG yn ôl yr angen